# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 28 Medi 2023

Amser: 09.29 - 12.47

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13473

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Vikki Howells AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Buffy Williams AS<br>Huw Irranca-Davies AS |
| Tystion: | Nerys Bourne, Gyrfa Cymru<br>Y Gw Anrh David TC Davies AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru<br>Mandy Ifans, Gyrfa Cymru<br>Nikki Lawrence, Gyrfa Cymru<br>Jason McLellan, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Lisa Mytton, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |

| | |
|---|---|
| | Dr Barry Walters, Colegau Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Lara Date, Clerc<br>Evan Jones, Dirprwy Glerc<br>Ceri Thomas, Swyddog Cymorth y Pwyllgor<br>Chloe Corbyn, Ymchwilydd<br>Ben Stokes, Ymchwilydd<br>Gareth Thomas, Ymchwilydd<br>Lucy Morgan, Ymchwilydd<br>Jennifer Cottle, Cynghorydd Cyfreithiol<br>Manon Huws, Cynghorydd Cyfreithiol |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

### 2.1 Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023

### 2.2 Cefnogaeth gyda thrawsnewid Tata Steel

### 2.3 Cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - 5 Gorffennaf 2023: Sesiwn graffu ar y cyd gyda Gweinidogion ar addysg a sgiliau ôl-16

## 3 Pwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc - Panel 1

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

## 4 Pwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc - Panel 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y panel.

## 5 Dyfodol Dur yng Nghymru

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

5.1 O dan Reol Sefydlog 17.49, roedd Huw Irranca-Davies AS, aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, hefyd yn bresennol yn y sesiwn hon.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw ac o'r eitem gyntaf yn y cyfarfod nesaf ar 11 Hydref 2023

6.1 Derbyniwyd y Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r eitem gyntaf yn y cyfarfod nesaf ar 11 Hydref 2023.

## 7 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd am bwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i drafod rhai materion ymhellach.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

8.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r Memorandwm, yn enwedig Rhan 1 yn ymwneud â'r Cenadaethau Ffyniant Bro, a gwelliannau eraill i'r Bil y gallai fod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r adroddroddiad ar y Memorandwm, sef 13 Hydref.

## 9 Papur cwmpasu: Ymchwiliad i Ymchwil a Datblygu

9.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunodd ar y cwmpas a'r dull ar gyfer ymchwiliad lefel uchel undydd i Ymchwil a Datblygu.

## 10 Papur cwmpasu: Banc Datblygu Cymru

10.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunodd ar y cwmpas a'r dull ar gyfer ymchwiliad lefel uchel undydd i Fanc Datblygu Cymru.